

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

***Y Fframwaith
Cenedlaethol ar gyfer
Comisiynu Gofal a
Chymorth yng Nghymru:
Cod Ymarfer***

Rhaglith	2
Cyfeiriadau a throednodiadau.....	3
Diffiniad o ofal a chymorth	4
Gwasanaethau y mae'r Cod hwn yn gymwys iddynt.....	4
Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.....	5
Comisiynu Gofal a Chymorth	6
Comisiynu.....	7
Y Cylch Comisiynu.....	8
Caffael	9
Monitro'r contract.....	9
Gwerth cymdeithasol	10
Egwyddorion comisiynu cyson, moesegol, effeithiol a thrawsnewidiol	10
Egwyddorion Comisiynu Gofal a Chymorth.....	11
Safonau Comisiynu Gofal a Chymorth	12
Broceriaeth.....	19
Defnyddio data i gefnogi comisiynu gwasanaethau	19
Darparu data am y gweithlu i Gofal Cymdeithasol Cymru	19
Prosiect Cartrefi Gofal Cymru.....	19
Cynhwysiant a Hygyrchedd Digidol	20
Gweithlu Gofal Cymdeithasol	20
Cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol	20
Y Gymraeg	20
Mwy na geiriau	21
Cydraddoldebau a hawliau dynol	22
Cefnogi'r amgylchedd ac ystyried cynaliadwyedd	22
Gofalwyr	24
Gwasanaethau i Blant	24
Diogelu	25
Fframwaith NYTH.....	25
Comisiynu sy'n cael ei wneud gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a/neu gydgomisiynu lleol	26
Cryfhau partneriaethau rhanbarthol	26
Geirfa	27

Rhaglith

- 1.1. Dyroddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 145 o [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) ("y Ddeddf"¹).
- 1.2. Mae hefyd yn ganllawiau o dan adran 169 o'r Ddeddf ac yn ganllawiau o dan adran 2 o [Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2006](#) ("Deddf 2006"²).
- 1.3. Daw'r Cod hwn i rym ar 1 Medi 2024, sef y dyddiad a bennwyd yn y [gorchymyn dyddiad penodedig](#)³.
- 1.4. Mae'r Cod hwn yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) o'r Ddeddf i'r graddau y mae'n gymwys i gomisiynu gwasanaethau ataliol a ddarperir i ddiwallu dyletswydd awdurdodau lleol o dan adran 15 o'r Ddeddf. Bwriedir iddo hefyd gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan Ran 4 o'r Ddeddf i ddiwallu anghenion 'gofal a chymorth' person. Mae adran 34(1)(c) o'r Ddeddf yn arbennig o berthnasol i gomisiynu 'gofal a chymorth' gan ei bod yn darparu y caiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion 'gofal a chymorth' person drwy ddarparu'r gwasanaeth ei hun neu drwy drefnu i'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan rywun arall.
- 1.5. Mae'r Cod hwn yn gymwys i ddarparu 'gofal a chymorth' gan fwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG a ddarperir yn rhan o becyn gofal wedi'i drefnu a'i ariannu ganddo neu ganddi i ddiwallu anghenion person am ofal iechyd sylfaenol neu ofal nyrsio, y caniateir ei ddarparu neu y mae rhaid ei ddarparu o dan adran 2(1) ac adran 3 o Ddeddf 2006, ac y mae'r awdurdod lleol wedi'i wahardd rhag ei ddarparu yn rhinwedd adrannau 47(1), (4) neu (5) o'r Ddeddf.
- 1.6. At ddibenion y Cod hwn, mae i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yr un ystyr ag sydd iddynt yn adran 197 o'r Ddeddf a chyfeirir atynt ar y cyd drwyddo draw fel 'partneriaid statudol'. Pan gyfeirir at gyrff unigol, defnyddir y term priodol. Pan gyfeirir at unigolion neu dimau sy'n cyflawni'r swyddogaethau comisiynu ar ran partneriaid statudol, defnyddir 'comisiynwyr'.
- 1.7. **Rhaid** i bartneriaid statudol weithredu'n unol â'r gofynion yn y Cod hwn. Nid yw adran 147 o'r Ddeddf (gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) yn gymwys i unrhyw ofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Cod hwn.
- 1.8. Er mwyn sicrhau bod gan y Cod hwn rym tebyg mewn perthynas â phartneriaid statudol, bydd Gweinidogion Cymru yn [cyfarwyddo](#)⁴ byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG o dan Ddeddf 2006 i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod hwn.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh>

² <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/42/contents>

³ Hyperddolen at y gorchymyn a throednodyn i'w hychwanegu unwaith y mae wedi'i wneud

⁴ Hyperddolen at y cyfarwyddyd a throednodyn i'w hychwanegu unwaith y mae wedi'i wneud

- 1.9. **Rhaid** i bartneriaid statudol:
- a) arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod hwn; a
 - b) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a nodir yn y Cod hwn.
- 1.10. Yn y cod hwn, mynegir gofyniad fel "**rhaid**" a mynegir canllawiau fel "dylai/dylid/dylent" neu "ni ddylai".
- 1.11. Dylid darllen y Cod hwn ar y cyd â'r holl godau ymarfer a chanllawiau a ddyroddir o dan y Ddeddf, ond yn benodol:
- a) [Cod Ymarfer Rhan 2 \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#)⁵
 - b) [Cod Ymarfer Rhan 4 \(Diwallu Anghenion\)](#)⁶
 - c) [Cod Ymarfer Rhan 8 ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol \(Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol\)](#)⁷
 - d) [Canllawiau Statudol Rhan 9 \(Trefniadau Partneriaeth\)](#)⁸
 - e) [Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad: Cod Ymarfer](#)⁹
- 1.12. Mae'r Cod hwn yn cymhwyso egwyddorion a safonau i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Pan fo angen gwneud darpariaethau mewn trefniadau contractio i sicrhau cydymffurfedd â'u cyfrifoldebau statudol yn y Cod hwn, **rhaid** i bartneriaid statudol wneud darpariaethau o'r fath a **rhaid** iddynt fod â mecanweithiau monitro a gwerthuso priodol ar waith i'w sicrhau eu hunain o gydymffurfedd.

Cyfeiriadau a throednodiadau

- 1.13. I gefnogi'r defnydd ymarferol o'r Cod hwn, pan fônt ar gael, mae hyperddolenni wedi'u mewnlannu yn nheitlau dogfennau ac adnoddau y cyfeirir atynt yn y Cod hwn ac mae cyfeiriad gwe llawn y ddolen wedi'i ddarparu mewn troednodyn cysylltiedig. Yn ogystal, sylwer bod deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy> a bod y Codau Ymarfer a'r Canllawiau Statudol a ddyroddir o dan y Ddeddf ar gael yn: [Codau ymarfer y gwasanaethau cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)¹⁰
- 1.14. Roedd pob hyperddolen a chyfeiriad gwe yn y troednodiadau yn fyw, yn weithredol ac yn gywir adeg dyroddi'r Cod hwn. Er na all Llywodraeth Cymru sicrhau na rheoli gweithrediad dolenni allanol, os bydd dolen yn peidio â gweithio tra mae'r fersiwn hon o'r Cod mewn grym, byddwn yn ceisio cyhoeddi yn [Codau ymarfer y gwasanaethau cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)¹¹ fersiwn wedi'i diweddarau o'r Cod a fydd yn cynnwys dolen newydd sy'n

⁵ <https://www.llyw.cymru/swyddogaethau-gofal-cymdeithasol-cyffredinol-awdurdodau-lleol-cod-ymarfer>

⁶ <https://www.llyw.cymru/diwallu-anghenion-gofal-chymorth-pobl-cod-ymarfer>

⁷ <https://www.llyw.cymru/rol-cyfarwyddwr-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer>

⁸ <https://www.llyw.cymru/trefniadau-partneriaeth-ar-gyfer-darparu-gofal-chymorth-canllawiau>

⁹ <https://www.llyw.cymru/adroddiadau-sefydlogrwydd-y-farchnad-cod-ymarfer>

¹⁰ <https://www.llyw.cymru/codau-ymarfer-y-gwasanaethau-cymdeithasol>

¹¹ <https://www.llyw.cymru/codau-ymarfer-y-gwasanaethau-cymdeithasol>

gweithio. Pan na fydd hynny'n bosibl, bydd yr hyperddolen a'r troednodyn yn cael eu dileu a bydd y rhan honno o'r Cod yn cael ei hadolygu a'i diwygio'n briodol yn yr adolygiad ffurfiol dwyflynyddol nesaf o'r Cod.

Diffiniad o ofal a chymorth

- 1.15. At ddibenion y Cod hwn, mae i'r term 'gofal a chymorth' yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 4 o'r Ddeddf. Felly, mae unrhyw gyfeiriadau at ofal a chymorth yn y Cod hwn i'w dehongli fel cyfeiriad at ofal, cymorth a gofal a chymorth gyda'i gilydd.
- 1.16. Mae adrannau 35 i 45 o'r Ddeddf yn cynnwys y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a phlant ac anghenion cymorth gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr sy'n blant. Mae adran 34(1) o'r Ddeddf yn rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y caiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion o dan adrannau 35 i 45 ac mae adran 34(2) yn nodi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu i ddiwallu anghenion person am 'ofal a chymorth'.

Gwasanaethau y mae'r Cod hwn yn gymwys iddynt

- 1.17. Mae'r Cod hwn yn gymwys i gomisiynu gwasanaethau 'gofal a chymorth', gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal gan:
 - a) awdurdod lleol – gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan awdurdod lleol, a/neu pan fo awdurdod lleol wedi trefnu iddynt gael eu darparu gan rywun heblaw'r awdurdod lleol (h.y. gwasanaethau wedi'u comisiynu'n allanol), er enghraifft gan sefydliad yn y trydydd sector, sefydliad preifat neu fenter gydweithredol;
 - b) byrddau iechyd lleol neu ymddiriedolaethau'r GIG – mae'r Cod hwn yn gymwys i'r elfen 'gofal a chymorth' o becyn gofal wedi'i drefnu a'i ariannu gan fwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG pan fo asesiad unigolyn wedi nodi bod ganddo 'angen iechyd sylfaenol' (mewn cyferbyniad ag angen am ofal a chymorth awdurdod lleol) neu angen gofal nyrsio. Gallai enghreifftiau gynnwys darparu gwasanaeth cartref gofal yng nghyd-destun Gofal Iechyd Parhaus neu ddarparu unrhyw 'ofal a chymorth' gan fyrdau iechyd lleol neu ymddiriedolaethau'r GIG yng nghyd-destun gofal nyrsio a ariennir. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd y Cod hwn yn gymwys pan fo bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG yn rheoli gwasanaeth cartref gofal gyda nyrsio. Mae'r Cod hwn yn gymwys i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan fwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG, neu pan fônt wedi trefnu i wasanaethau gael eu darparu gan rywun ar eu rhan (h.y. gwasanaethau wedi'u comisiynu'n allanol), er enghraifft gan sefydliad yn y trydydd sector, sefydliad preifat neu fenter gydweithredol;
 - c) trefniadau comisiynu cydweithredol, cydgomisiynu neu gomisiynu integredig (awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG) ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth gan gynnwys unrhyw drefniadau partneriaeth ffurfiol yn cynnwys trefniadau rhwng cyrff y GIG ac awdurdodau lleol o dan adran 33 o Ddeddf 2006 a gwasanaethau rhanbarthol a ddatblygir drwy drefniadau ffurfiol o dan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

1.18. Nid yw'r Cod hwn yn gymwys i:

- a) gwasanaethau a ddarperir neu a drefnir gan awdurdod lleol nad ydynt yn wasanaethau gofal a chymorth nac yn wasanaethau ataliol¹² o dan y Ddeddf;
- b) gofal iechyd/gwasanaethau iechyd a ddarperir yn uniongyrchol neu a gomisiynir gan y GIG gan gynnwys gwasanaethau sy'n darparu lleoliadau mewn ysbytai a gwasanaethau gofal sylfaenol (Ymarfer Cyffredinol, Deintyddiaeth, Optometreg, Fferylliaeth); nac
- c) gofal a chymorth a ddarperir i unigolyn drwy daliadau uniongyrchol (h.y. y trefniadau rhwng defnyddiwr gwasanaeth a'r person sy'n darparu'r gwasanaeth).

1.19. Dylai byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG fod yn ymwybodol y bydd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) a'r canllawiau statudol cysylltiedig (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yng Nghymru – Canllawiau Statudol), y mae disgwyl iddynt ddod i rym yn hydref 2024, hefyd yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd. Bydd y Rheoliadau yn gymwys i unrhyw gaffael cydweithredol neu ar y cyd gan awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol, ymddiriedolaeth GIG, neu awdurdod iechyd arbennig pan fo'r contract efallai'n cynnwys gwasanaethau neu nwyddau gofal cymdeithasol, ond mai gwasanaethau iechyd yw prif bwnc y contract.

Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

1.20. Mae Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth ("y Swyddfa Genedlaethol") wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd yn chwarae rhan bwysig yn y canlynol:

- a) goruchwyllo a chefnogi'r gwaith o weithredu a rheoli'r fersiwn gyntaf hon o'r Cod hwn, a fersiynau dilynol;
- b) cefnogi partneriaid statudol i lynu wrth y gofynion yn y Cod hwn a'u cefnogi wrth iddynt godi safonau (cysondeb a gwelliant);
- c) gweithredu fel adnodd canolog o arferion gorau ar gyfer comisiynu i helpu i roi'r Cod hwn ar waith;
- d) cefnogi comisiynwyr lleol a rhanbarthol o ran unrhyw heriau sylweddol sy'n ymwneud â goruchwyllo'r farchnad; ac
- e) cefnogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Cod hwn¹³ bob 2 flynedd i sicrhau ei fod yn aros yn gyfredol ac yn cyd-fynd â dyheadau arferion comisiynu (bydd hyn yn cynnwys newidiadau i gefnogi'r newid i fodolau gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal).

1.21. Efallai y bydd rhagor o ganllawiau comisiynu anstatudol yn cael eu cyhoeddi rhwng cyfnodau adolygu dwyflynyddol ffurfiol y Cod, pan fo arferion comisiynu

¹² <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/15/welsh>

¹³ Mae'r pŵer i ddiwygio a dyroddi'r Cod o dan adran 145 o'r Ddeddf yn aros yn nwylo Gweinidogion Cymru.

a gweithredu penodol i gael eu hyrwyddo, er mwyn hwyluso arferion da a chanlyniadau gwell.

- 1.22. Mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi creu pecyn cymorth cynhwysfawr, y bydd yn ei ddiweddarau'n rheolaidd, i helpu partneriaid statudol i fodloni gofynion y Cod hwn ac i adlewyrchu newidiadau i arferion comisiynu. Bydd yn cynnwys dogfennau canllaw, templedi, enghreifftiau o arferion nodedig ac arferion da a chymalau contract enghreifftiol cenedlaethol. Mae'r pecyn cymorth wedi'i gyhoeddi ar wefan 'cymunedau Gofal Cymdeithasol Cymru' a bydd modd i aelodau o'r gymuned gael gwybod pan ychwanegir offer neu adnoddau newydd at y pecyn cymorth. I gael at y pecyn cymorth bydd angen i ddefnyddwyr yn gyntaf gofrestru cyfrif 'cymunedau Gofal Cymdeithasol Cymru' [yma](#)¹⁴. Ar ôl gwneud hynny bydd modd i ddefnyddwyr cofrestredig gael at y pecyn cymorth yn uniongyrchol [yma](#)¹⁵.

Comisiynu Gofal a Chymorth

- 1.23. Mae'r Ddeddf yn ceisio trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn cyflawni dau brif amcan:
- a) Gwasanaethau sy'n sicrhau llesiant dinasyddion: "yr hyn sy'n bwysig" iddyn nhw yn ôl eu diffiniad eu hunain.
 - b) Gwasanaethau sy'n gynaliadwy er gwaethaf tueddiadau demograffig.
- 1.24. Mae'r Cod hwn yn nodi fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.
- 1.25. At ddibenion y Cod hwn, mae comisiynu'n golygu gwneud penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau sydd eu hangen i ymateb i anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion, gan gynnwys gofalwyr, yng Nghymru. Mae hefyd yn golygu gwneud penderfyniadau ynghylch capasiti, lleoliad, costau ac ansawdd gwasanaethau ynghyd â sut y byddant yn cael eu darparu a chan bwy.
- 1.26. Mae comisiynu'n cynnwys cynllunio, caffael a gwerthuso neu adolygu gwasanaethau. Mae'n ymwneud â chyflawni cyfrifoldebau statudol yr awdurdod lleol, a'r GIG o ran llunio gwasanaethau i atal neu oedi, pan fo'n bosibl, angen am ofal a chymorth ac i ymateb i anghenion gofal a chymorth pobl nawr ac yn y dyfodol.
- 1.27. Dylai comisiynu fod yn seiliedig ar werthoedd craidd y Ddeddf: llais a rheolaeth, atal ac ymyrraeth gynnar, llesiant, cydgynhyrchu, gweithio amlasiantaethol a rhoi sylw dyladwy i ddyletswyddau yn ymwneud â [Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#)¹⁶ (CCUHP),

¹⁴ <https://communities.socialcare.wales/cy/welcome>

¹⁵ <https://communities.socialcare.wales/cy/web/national-framework-commissioning-toolkit>

¹⁶ <https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-child>

[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau](#)¹⁷
(CCUHPA) ac [Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn](#)¹⁸.

1.28. Mae [Cod Ymarfer Rhan 8 ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol \(Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol\)](#)¹⁹ yn nodi prif themâu'r Ddeddf. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **Ffocws ar bobl** – sicrhau bod gan bobl lais a rheolaeth dros y gofal a'r cymorth a gânt, er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw a hefyd sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u datblygu o amgylch pobl.
- **Llesiant** – mesur llwyddiant o safbwynt canlyniadau i bobl yn hytrach na phroses.
- **Atal ac ymyrraeth gynnar** – sicrhau bod gwaith atal ac ymyrraeth gynnar yn digwydd er mwyn lleihau'r graddau y mae angen yn gwaethygu a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.
- **Partneriaeth ac integreiddio** – pob asiantaeth a sefydliad, gan gynnwys ym maes iechyd, yn cydweithredu ac yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl yn y ffordd orau posibl.
- **Hygyrchedd** – gwella'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i bobl a sicrhau bod pawb, ni waeth beth fo'u hanghenion, yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth honno.
- **Modelau gwasanaeth newydd** – datblygu modelau newydd ac arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau, yn enwedig modelau sy'n cynnwys y defnyddwyr gwasanaethau eu hunain.

1.29. **Rhaid** i bartneriaid statudol sicrhau bod gweithgareddau ac arferion comisiynu yn cyflawni dyheadau'r Ddeddf ar gyfer holl bobl Cymru.

Comisiynu

1.30. Mae comisiynu wedi ymsefydlu'n broses bwysig i helpu i sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau a sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd angen gofal a chymorth. Ar draws Cymru, ceir eisoes lawer o enghreifftiau o arferion comisiynu a chaffael da, ond mae anghysondeb yn y ffordd y caiff gwasanaethau gofal a chymorth eu comisiynu.

1.31. Mae comisiynu'n digwydd i sicrhau yr asesir ar gyfer gofal a chymorth a'u bod yn cael eu cynllunio a'u trefnu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn y ffordd orau, ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.

1.32. Mae ystod o weithgarwch ynghlwm wrth gomisiynu gan gynnwys deall anghenion unigolion a'r boblogaeth, sefydlogrwydd a digonolrwydd darpariaeth a marchnadoedd gofal, ac argaeledd adnoddau lleol (gan gynnwys cyllid, y gweithlu ac ystod o asedau cymunedol) gan alluogi

¹⁷ <https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities>

¹⁸ <https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/united-nations-principles-older-persons>


¹⁹ <https://www.llyw.cymru/rol-cyfarwyddwr-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer>

comisiynwyr i ddeall cymunedau lleol a sut y gall y rhain amrywio yn dibynnu ar angen ac asedau lleol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fodolau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cynnig gwerth cyhoeddus. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth gyfun hon, mae comisiynwyr yn datblygu perthnasoedd a threfniadau ar draws system gyfan, i gynllunio, gweithredu ac adolygu ymyriadau sy'n diwallu angen pobl am ofal a chymorth gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.

- 1.33. Mae comisiynu'n golygu bod angen edrych ar y system gyfan a bod angen y gallu i feithrin a hwyluso amrywiaeth o berthnasoedd cydweithredol a chydgyhyrchiol. Y canlyniad a rennir yw sicrhau hawliau pobl i allu mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, cymryd rhan mewn penderfyniadau a chael cymorth drwy eiriolaeth i'w galluogi i wneud hynny.

Y Cylch Comisiynu

- 1.34. Mae'r cylch comisiynu isod yn dangos set o weithgareddau trawsnewid rhyngddibynnol ar draws swyddogaethau comisiynu, caffael a gwerth cymdeithasol gyda'r nod o sicrhau canlyniadau da i bobl. Mae perthynas symbiotig rhwng y tair elfen, ac nid ydynt yn swyddogaethau unigol ar wahân. Nid oes gan y cylch hyd penodol na man cychwyn a bydd partneriaid statudol yn gweithio drwy'r camau ar adegau gwahanol. Mae'r holl gamau a gweithgareddau yn y cylch comisiynu yn bwysig ac yn angenrheidiol er mwyn comisiynu'n effeithiol a chyflawni canlyniadau llesiant i bobl ar sail 'yr hyn sy'n bwysig' iddyn nhw.



Caffael

1.35. Set o weithgareddau trafodiadol sy'n sicrhau gwasanaethau yw caffael. Mae'n golygu pennu gofynion drwy fanylebau, sicrhau gwerth cyhoeddus drwy brynu nwyddau drwy'r llwybr mwyaf priodol e.e. tendro, a monitro effeithiolrwydd gwasanaethau. **Rhaid** i bartneriaid statudol gydymffurfio â'r deddfwriaeth gaffael bresennol gan gynnwys [Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) 2023](#)²⁰ ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig wrth ymgymryd â chaffael gwasanaethau gofal a chymorth.

Monitro'r contract

1.36. Mae monitro contract yn fodd i gasglu data a thystiolaeth, gan ddynodi i ba raddau y mae bwriadau, ansawdd a chanlyniadau comisiynu yn cael eu cyflawni, gan gynnwys monitro bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n foesebol a'u bod yn gynaliadwy. Dylid defnyddio dadansoddiad o'r wybodaeth hon i lywio'r cylch comisiynu nesaf.

²⁰ <https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2023/1/contents/welsh>

Gwerth cymdeithasol

- 1.37. Gall gwerth cymdeithasol gael ei ddarparu gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'n galluogi pobl i gyflawni eu llesiant drwy ddarparu gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n darparu elfen o werth cymdeithasol yn eu cymunedau.
- 1.38. Gall gwasanaethau gofal a chymorth ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau manteision dwyochrog ac i gefnogi cadernid a dyfeisgarwch cymunedol.
- 1.39. Mae gwasanaethau gofal a chymorth hefyd yn bwysig ar gyfer hyrwyddo a chyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol. Pan fyddant yn cael eu darparu'n effeithiol, maent yn hyrwyddo urddas, yn cefnogi byw'n annibynnol ac yn galluogi pobl i gynnal perthnasoedd a chysylltiadau â'r gymuned ehangach.
- 1.40. Gall comisiynu gwasanaethau'n lleol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol hefyd leihau gwastraff ac ôl troed carbon a galluogi cyfranogi mewn prosiectau amgylcheddol lleol.
- 1.41. Mae gwerth economaidd yn cael ei gyflawni pan fydd tâl i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn deg ar draws y sector.
- 1.42. Mae modelau darparu gwerth cymdeithasol yn cael eu diffinio yn ôl eu gallu i gyflawni yn erbyn pedair egwyddor y Ddeddf (canlyniadau llesiant; cydgynhyrchu, llais a rheolaeth; cydweithio a phartneriaeth; atal ac ymyrraeth gynnar) ac i ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a dylai comisiynwyr ystyried hyn yn eu prosesau comisiynu.

Egwyddorion comisiynu cyson, moesegol, effeithiol a thrawsnewidiol

- 1.43. Yn ganolog i egwyddorion comisiynu y mae egwyddor "yr hyn sy'n bwysig" i bobl sydd angen gwasanaethau gofal a chymorth fel y nodir ym mharagraff 4 o [Ganllawiau Statudol Rhan 9 \(Trefniadau Partneriaeth\)](#)²¹.

"Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i, gyda phobl yn gweithio gyda'i gilydd, i'm deall i, fy nheulu a'm gofalwyr (a'n hanghenion), gyda ffocws ar fy lles pennaf, gan roi llais, dylanwad a rheolaeth i mi, a dod â gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth at ei gilydd a fydd yn sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i mi".

- 1.44. Mae'r rhan hon o'r Cod hwn yn nodi set o egwyddorion, canlyniadau, gwerthoedd a safonau ansawdd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar **saith egwyddor comisiynu effeithiol a moesegol** y mae'n **rhaid** i gomisiynwyr eu gwreiddio yn eu harferion comisiynu a mynd ati i annog darparwyr i'w gwreiddio wrth ddarparu gwasanaethau.

²¹ <https://www.llyw.cymru/trefniadau-partneriaeth-ar-gyfer-darparu-gofal-chymorth-canllawiau>

Egwyddorion Comisiynu Gofal a Chymorth

1. **Mae perthnasoedd yn bwysig:** Daw perthnasoedd gofalgar, tosturiol a theg o gydgyhyrchu cynhwysol, rhwng darparwyr gofal a chymorth, dinasyddion, comisiynwyr, pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth a chyrrff cynrychioliadol fel y bo'n briodol.
2. **Mae arweinyddiaeth effeithiol yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn onest:** I ailgydbwysu'r system iechyd a gofal cymdeithasol mae angen i arweinwyr a chomisiynwyr fod yn atebol am greu diwylliannau cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar ddysgu. Dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai arweinwyr geisio gwella a datblygu'n barhaus y systemau dysgu digidol, technolegol a dynol sydd eu hangen i gasglu, rhannu a deall tystiolaeth gan gynnwys effaith ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol (cadarnhaol, negyddol a niwtral), yn cynnwys data; gyda'r nod o leihau dyblygu data (casglu unwaith, defnyddio sawl gwaith).
3. **Cydweithio: rhannu risgiau, adnoddau ac asedau: Rhaid** i arweinwyr a chomisiynwyr feithrin cyd-ddealltwriaeth o risg, ac o alluogi unigolion mewn ffordd gadarnhaol drwy eu caniatáu i gymryd risgiau, gan gynnwys cymunedau a'r holl asedau sydd ar gael i liniaru risgiau i lesiant y boblogaeth.
4. **Gwerth yw "yr hyn sy'n bwysig":** Mae gwerth yn fwy na chost; mae'n ofal a chymorth diogel ac o ansawdd da sy'n sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i bobl ac yn gwella gwerth cymdeithasol. Mae gwerth cyhoeddus yn deillio o gyflawni'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol, caffael a rheoleiddiol gan gynnwys cydraddoldebau, hawliau dynol, egwyddorion gwaith teg ac ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, technegol ac amgylcheddol.
5. **Mae gofal a chymorth cynaliadwy yn seiliedig ar waith teg a phrisiau teg: Rhaid** i arferion comisiynu helpu cyflogwyr i wella statws, llesiant ac amodau gwaith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r nod o sicrhau parch a thelerau ac amodau cyfartal ar draws y sectorau (statudol, preifat a'r trydydd sector).
6. **Cynllunio ar gyfer yr angen presennol a chenedlaethau'r dyfodol:** Mae comisiynu ar gyfer canlyniadau gwell yn weithgaredd tymor canolig i hirdymor; mae cynllunio'n gofyn am lunio rhagolygon, a dylai'r ddarpariaeth ganolbwyntio ar atal (gweler adran 15 o'r Ddeddf) a chynaliadwyedd (gan gynnwys ymrwymadau carbon).
7. **Tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio drwy straeon a rhifau:** Dylai comisiynwyr gasglu tystiolaeth gan bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac sy'n eu helpu i gael bywyd da, ac yna defnyddio hyn i lywio canlyniadau gwasanaeth. Dylid mesur perfformiad gwasanaethau yn ôl profiad a chanlyniadau a dylai comisiynwyr hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwella parhaus, gan adeiladu ar arferion da a'u gwreiddio.

Safonau Comisiynu Gofal a Chymorth

- 1.45. Mae'r safonau comisiynu a nodir isod yn gymwys i bob rhan o'r cylch comisiynu, gan gynnwys ailddylunio a datgomisiynu gwasanaethau. Mae'r safonau'n berthnasol i bawb sy'n ymwneud â chomisiynu ac maent yn ategu adnoddau a chanllawiau manylach ar gomisiynu a chaffael effeithiol ar gyfer poblogaethau penodol a modelau gwasanaeth penodol, a fydd yn cael eu cynnwys yn y pecyn cymorth.
- 1.46. Bwriedir i'r safonau hwyluso'r bwriad i ailgydbwysu gofal a chymorth drwy symud arferion comisiynu presennol:
- a) Oddi wrth gymhlethdod (prosesau). Tuag at symleiddio.
 - b) Oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol.
 - c) Oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad.
 - d) Oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau.
 - e) Oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at weithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol.
- 1.47. Y nod yw sicrhau bod arferion comisiynu yn cael eu safoni drwy:
- a) gosod meincnodau cenedlaethol i ysgogi gwelliant parhaus o ran comisiynu a darparu gofal a chymorth yng Nghymru;
 - b) sbarduno trawsnewid comisiynu a darparu gofal a chymorth yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda'r Swyddfa Genedlaethol i ysgogi newidiadau cadarnhaol;
 - c) gwella cysondeb arferion comisiynu;
 - d) hyrwyddo integreiddio lleol a lleol iawn, cydgomisiynu a gwneud penderfyniadau ar y cyd; ac
 - e) mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyflawni hawliau dynol, ac ategu deddfwriaeth a chanllawiau gan gynnwys:
 - i. [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)²²
 - ii. [CCUHP](#)
 - iii. [CCUHPA](#)
 - iv. [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)²³
 - v. [Cymru sy'n Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Canllawiau Statudol](#)²⁴
 - vi. [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol\) \(Cymru\) 2021](#)²⁵
 - vii. [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#)²⁶

²² <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>

²³ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/42/contents>

²⁴ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-sy%E2%80%99n-fwy-cyfartal.pdf>

²⁵ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/295/contents/made/welsh>

²⁶ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149>

viii. [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)²⁷

- 1.48. Dylai partneriaid statudol allu dangos bod eu harferion comisiynu'n cael eu cynnal yn unol â'r Cod hwn.
- 1.49. Er bod manteision clir i'w cael o osod egwyddorion a safonau cenedlaethol at ddibenion ansawdd a chysondeb, cydnabyddir bod angen i bartneriaid statudol allu gweithredu'n hyblyg er mwyn gallu comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn effeithiol i ymateb i anghenion ac amodau poblogaethau lleol. Felly, er bod y Cod hwn yn gosod safonau ac egwyddorion cenedlaethol, maent wedi'u llunio i ddarparu a chynnal yr hyblygrwydd hwnnw. Yn ogystal, mae'r pecyn cymorth wedi'i lunio i hybu a chefnogi'r ffyrdd y gall comisiynwyr ymateb i anghenion lleol.
- 1.50. Mae'r egwyddorion a'r safonau yn y Cod hwn yn cyd-fynd â'r gwerthoedd system gyfan a ddisgrifir yn '[Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)'²⁸ sy'n canolbwyntio ar gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a rhoi modelau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith yn lleol, gan wneud y defnydd gorau o asedau lleol, i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Maent hefyd yn gyson â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd drwy wreiddio'r pum ffordd o weithio.
- 1.51. Cydnabyddir bod yr egwyddorion a'r safonau'n heriol ac yn uchelgeisiol mewn rhai meysydd a byddant yn gofyn am newidiadau ar draws y system gyfan dros amser gan gynnwys datblygu polisi er mwyn i bartneriaid statudol gyflawni pob uchelgais yn y Cod hwn. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad dwyflynyddol o'r Cod hwn ac, os oes angen, ei weithredu drwy gyflwyno canllawiau comisiynu interim anstatudol ychwanegol o bryd i'w gilydd.
- 1.52. Mae glynu wrth y safonau hyn yn sicrhau bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ledled Cymru:
- a) yn gyson;
 - b) yn foesebol;
 - c) yn drawsnewidiol; a
 - d) yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a nodau llesiant deddfwriaeth Cymru.

²⁷ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/welsh>

²⁸ <https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol>

Safon 1: Gwreiddio gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf ym mhob gweithgaredd comisiynu

Rhaid i bartneriaid statudol arddangos gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy:

- a) cyflawni canlyniadau llesiant;
- b) cydgynhyrchu, gyda llais a rheolaeth yr unigolyn yn ganolog i gomisiynu ar gyfer canlyniadau llesiant sy'n canolbwyntio ar y 'person' neu'r 'claf';
- c) cydweithio;
- d) ymyrraeth gynnar ac atal; ac
- e) cynllunio hirdymor, gan ychwanegu gwerth (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol).

Rhaid i bartneriaid statudol ddangos tystiolaeth bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn cael ei gydgynhyrchu [wedi'i gyd-ddylunio, ei gydyflwyno a'i gydwertuso] ag unigolion sydd angen gofal a chymorth, boed yn byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau preswyl/lleoliadau a rennir, neu eu heiriolwyr a'u gofalwyr.

Rhaid i bartneriaid statudol gydweithio a chydgomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, pan fo'n briodol gwneud hynny.

Felly, wrth gomisiynu, dylid ystyried yr anghenion tymor byr, canolig a hir drwy ddefnyddio asesiadau o anghenion y boblogaeth, cynlluniau ardal ar y cyd a chynlluniau/strategaethau comisiynu.

Safon 2: Sicrhau sgiliau, adnoddau a chapasiti digonol

Rhaid i bartneriaid statudol gydbwyso pob elfen o'r cylch comisiynu a sicrhau bod ganddynt sgiliau a chapasiti digonol i:

- a) Cyd-ddylunio, cynllunio, darparu/sicrhau, monitro a chydwerthuso gwasanaethau gyda darparwyr gofal a chymorth, pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.
- b) Cefnogi gwelliant parhaus a datrys problemau ar y cyd â darparwyr gofal a chymorth a phartneriaid perthnasol eraill.

Rhaid i bartneriaid statudol, wrth ymgymryd â'u gweithgarwch comisiynu, sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i feithrin cadernid cymunedol, gan fuddsoddi mewn grwpiau, gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y gymuned drwy:

- a) Cymorth ataliol – gwasanaethau cymorth sy'n aml yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd sector ag arbenigedd penodol, gan gefnogi ystod o wasanaethau gwybodaeth a chynghor.
- b) Gwasanaethau Gofal a Chymorth – gwasanaethau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth ar lefel ganolog i uchel.

Dylai partneriaid statudol weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth gan gynnwys, pan fo'n briodol, defnyddio trefniadau cyllidebau cyfun.

Dylai partneriaid statudol gydbwysu'r angen i gefnogi arloesedd a gweithredu'r hyn a ddysgir gan eraill am wasanaethau sy'n cyflawni canlyniadau da.

Safon 3: Defnyddio data i gyflawni canlyniadau

Rhaid i bartneriaid statudol gasglu data meintiol ac ansoddol perthnasol a chywir gan gynnwys tueddiadau'r presennol a'r dyfodol i sicrhau bod comisiynu'n seiliedig ar ddata ystyrion a sicrhau capasiti a gallu dadansoddol digonol i lywio cynlluniau comisiynu cadarn. Dylai hyn hefyd ystyried nodweddion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a phobl y bydd efallai angen gwasanaethau arnynt yn y dyfodol gan gynnwys anghenion diwylliannol ac ieithyddol.

Rhaid i benderfyniadau ynghylch comisiynu ac adnoddau fod yn seiliedig ar dystiolaeth o:

- a) angen y boblogaeth, gan gynnwys y galw a'r ddemograffeg a ragwelir yn y dyfodol, yn cynnwys yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- b) y canlyniadau gofynnol ar lefel gwasanaeth, gan gynnwys mynediad prydion a theg;
- c) digonolrwydd ac ansawdd gofynnol cyflenwad / darpariaeth iechyd, gofal a chymorth yn y dyfodol (adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad); a
- d) asesiad o ba wasanaethau fydd yn cyflawni orau'r canlyniadau sy'n bwysig i unigolion, dros amser (tystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei werthfawrogi a beth sy'n gweithio).

Rhaid i bartneriaid statudol rannu asesiadau o anghenion y boblogaeth leol a ddefnyddir i ddatblygu a llunio asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol gyda darparwyr presennol a darparwyr posibl yn y dyfodol (gan gynnwys y rheini y tu allan i wasanaethau gofal a chymorth) er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfranwyr posibl, gan gynhyrchu buddsoddiad mewn meysydd lle mae bylchau wedi'u nodi.

Rhaid i bartneriaid statudol gasglu data yn ymwneud â chanlyniadau cenedlaethol, a pherfformiad, ac adrodd ar y data hyn, yn unol â'r gofynion adrodd presennol.

Rhaid i bartneriaid statudol adolygu asesiadau risg y farchnad leol a rhanbarthol yn rheolaidd a rhoi cynlluniau lliniaru risg ar waith.

Dylai partneriaid statudol archwilio sut y gellid cyfuno adnoddau comisiynu a dadansoddi drwy weithio drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a dylent geisio sicrhau bod casglu data yn lleihau dyblygu ac yn cydymffurfio â'r gyfraith diogelu data.

Rhaid i bartneriaid statudol wneud penderfyniadau ar sail dystiolaeth ynglŷn â'r mathau o wasanaethau a lefelau'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

Safon 4: Dewis gwasanaethau

Rhaid i bartneriaid statudol ddangos bod cynlluniau comisiynu a / neu gaffael yn seiliedig ar benderfyniadau ar sail tystiolaeth ynghylch y rheswm/rhesymau dros ddewis:

- a) darpariaeth uniongyrchol
- b) comisiynu unigol neu ar y cyd
- c) tendro / aildendro
- d) opsiynau eraill ar gyfer meithrin a sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth mewn cymunedau

Dylai partneriaid statudol ystyried pob opsiwn ar gyfer sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth, a gallai'r rhain gynnwys, ymysg opsiynau eraill:

- a) Cymorth grant (grantiau)
- b) Contractio mewn cynghrair (cytundebau pan fo partïon yn cytuno i weithredu'n ddidwyll i gydweithio i gyflawni nod cyffredin)
- c) Partneriaethau arloesi (caffael datrysiadau arloesol nad ydynt ar gael eto neu nad ydynt yn bodoli yn y farchnad)

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, **rhaid** i bartneriaid statudol fod yn dryloyw gyda darparwyr ynglŷn â'u penderfyniadau. Dylai partneriaid statudol ymgysylltu â darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, a'u cynnwys, drwy gydol eu gweithgareddau comisiynu.

Safon 5: Mesur Gwerth

Rhaid i bartneriaid statudol fesur 'gwerth' yn gyson ar sail ansawdd a phrofiadau a chanlyniadau pobl o wasanaethau yn ogystal ag:

- a) arfer hawliau;
- b) safonau ansawdd a diogelwch;
- c) dadansoddiad o ddata cwynion a chanmoliaeth, gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig;
- d) effaith amgylcheddol;
- e) gwerth cymdeithasol; ac
- f) cost.

Rhaid i weithgarwch caffael a rheoli ansawdd a pherfformiad gwasanaethau gofal a chymorth (y rhai a wneir o dan contract a'r rhai a ddarperir yn uniongyrchol) wneud y canlynol:

- a) canolbwyntio ar ganlyniadau (llesiant), diogelwch a chynaliadwyedd (mwyaf manteisiol / gwerth);
- b) cael ei werthuso (mesur) yn ôl ei effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol (diben) gan gynnwys egwyddorion gwaith teg; ac
- c) ystyried cynaliadwyedd yng nghyd-destun gwerth y contract.

Safon 6: Cefnogi arferion moesegol a gwaith teg

Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal a chymorth yn cael eu comisiynu'n foesegol a'u bod yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg.

Dylai partneriaid statudol helpu cyflogwyr i wella statws, llesiant ac amodau gwaith ym maes gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws y sectorau (statudol, preifat a'r trydydd sector).

I gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol, dylai partneriaid statudol:

- a) cymryd perchnogaeth ac atebolrwydd dros ystyriaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ar gomisiynu a chontractau allanol sy'n effeithio ar y gweithlu;
- b) cynnal a chyhoeddi Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar sail tystiolaeth sy'n asesu'r effaith y bydd penderfyniadau ynghylch comisiynu a chontractau allanol yn ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys gweithwyr ethnig leiafrifol;
- c) monitro darparwyr i sicrhau bod y data gofynnol am y gweithlu ar gael;
- d) ystyried ffyrdd y gellir defnyddio prosesau a dyletswyddau caffael presennol i wella cydymffurfedd â'u Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, er enghraifft drwy ystyried sut y mae materion cydraddoldeb wedi'u hymgorffori yn y prosesau tendro a rheoli contractau; ac
- e) datblygu Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer ymarferion caffael arfaethedig sy'n ystyried yr effaith ar y gweithlu gofal cymdeithasol gan gynnwys gweithwyr â nodweddion gwarchoddedig.

Safon 7: Deall costau gofal

Rhaid i bartneriaid statudol ddangos eu bod yn deall costau llawn gofal a ddarperir yn uniongyrchol a gofal a ddarperir o dan gontractau yn eu hardal.

Rhaid i bartneriaid statudol a darparwyr gydweithio i ddeall costau teg a chynaliadwy darparu gofal er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch pennu ffioedd a **rhaid** iddynt sicrhau bod dull cyson a thryloyw o bennu ffioedd.

Pan fo'n briodol, dylai partneriaid statudol gysoni a / neu gyfuno adnoddau (gan gynnwys cyllid ac adnoddau dynol) er mwyn gallu cyflawni cynlluniau comisiynu ar y cyd yn effeithiol.

Dylai partneriaid statudol, drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol neu fecanweithiau lleol ar y cyd/integredig, pan fo hynny'n briodol, archwilio manteision:

- a) rhannu adnoddau ar draws unrhyw bartneriaid / pob partner i roi cynlluniau ar waith i wella llesiant y boblogaeth a / neu ansawdd ac argaeledd gofal a chymorth.
- b) partneriaethau ehangach e.e. gyda meysydd tai, hamdden, llyfrgelloedd ac addysg, gofal sylfaenol a chanolfannau llesiant i hybu llesiant y boblogaeth gyfan, gan leihau'r galw am ofal a chymorth a chynyddu cymorth cynnar.

Rhaid i bartneriaid statudol gydasesu aeddfedrwydd eu trefniadau a'u perthnasoedd comisiynu integredig a chydweithredol a dylent nodi cyfleoedd i wella mewn meysydd allweddol.

Safon 8: Pennu ffioedd teg a chynaliadwy

Dylai partneriaid statudol ddefnyddio methodolegau neu feincnodau cost lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol i bennu pris teg a chynaliadwy ar gyfer gofal a chymorth o safon. Mae methodolegau cyffredin yn helpu i ddadansoddi costau a datblygu achosion busnes ar gyfer treialu a phrofi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau drwy bethau fel creu prototeip a chynyddu gwasanaethau mewn dull iteraidd.

Rhaid i bartneriaid statudol fod yn dryloyw ac yn gyson wrth bennu cyfraddau ffioedd gan sicrhau eu bod yn asesu costau teg a chynaliadwy gofal a chymorth a sicrhau gwerth cyhoeddus.

Rhaid i bartneriaid statudol gadarnhau eu cyfraddau ffioedd i ddarparwyr yn brydlon cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Dylai methodolegau ystyried ffactorau fel daearyddiaeth, cyd-destun sefydliadol, amodau'r farchnad ofal a'r farchnad lafur a pholisi gwaith teg (tâl, telerau ac amodau a fframweithiau dilyniant). **Rhaid** i fecanweithiau cynyddu contractiol gynnwys mecanweithiau priodol ar sail chwyddiant i gyd-fynd â chostau cynyddol.

Ni ddylai sefydlu methodolegau a meincnodau cyson dynnu oddi ar ddemocratiaeth leol a phenderfyniadau lleol ynghylch pennu prisiau. Dylai comisiynwyr ystyried effaith eu gweithgareddau comisiynu a chaffael ar ddigonolrwydd gofal a chymorth ac ar sefydlogrwydd y farchnad.

Safon 9: Rheolau Sefydlog ar gyfer Materion Ariannol a Chontractau

Rhaid i bartneriaid statudol barhau i adolygu Rheolau Sefydlog ar gyfer Materion Ariannol a Chontractau i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'r diben i sicrhau gwasanaethau gofal a chymorth o'r ansawdd a'r ystod sy'n ofynnol.

Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau bod eu rheoliadau ariannol yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion penodol comisiynu a chaffael gwasanaethau gofal a chymorth.

Safon 10: Cydraddoldeb a hawliau dynol

Rhaid i bartneriaid statudol weithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo a chyflawni hawliau dynol.

Rhaid i bartneriaid statudol ddangos sut y maent yn bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a rheoliad 18 o [Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Dyletswyddau Statudol\) \(Cymru\) 2011](#)²⁹.

²⁹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/made/welsh>

Rhaid i bartneriaid statudol sicrhau, wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd, eu bod yn rhoi sylw i CCUHP, CCUHPA a '[Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Fframwaith egwyddorol ac ymarferol o weithio gyda phlant, wedi'i seilio ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, yw Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant](#)'³⁰, yn ogystal â'r [Siarter Rhianta Corfforaethol – Addewid Cymru](#)³¹, fel bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial.

Dylai partneriaid statudol geisio dod o hyd i ffyrdd y gellir estyn eu dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol i ddarparwyr drwy gontractau a manylebau gwasanaethau.

Rhaid i bartneriaid statudol gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer ymarferion comisiynu a chaffael.

Broceriaeth

- 1.53. Mae broceriaeth yn derm sy'n cael ei ddefnyddio yn aml ar gyfer y broses o drefnu gofal a chymorth i unigolion. Dylai broceriaeth roi anghenion a dymuniadau'r person sydd angen gofal a chymorth wrth wraidd y broses bob amser.
- 1.54. Er bod rolau a gweithgareddau'n amrywio ar lefel leol, mae'r rôl, yng Nghymru, yn gysylltiedig yn bennaf â sefydlu trefniadau gydag asiantaethau cymorth a gofal cartref.
- 1.55. Gellid lleihau'r angen am rôl broceriaeth ar wahân neu, mewn rhai achosion, ei ddileu drwy ddatblygu trefniadau gweithio amlbroffesiynol; yn enwedig pan fydd timau gofal cartref (statudol a/neu annibynnol) yn cael eu cynnwys fel elfen allweddol o dimau adnoddau cymunedol seiliedig ar leoedd (seilwaith). Mae'r rhaglen seilwaith cymunedol yng Nghymru yn canolbwyntio ar alluogi pobl i fyw'n dda, yn nes at eu cartref drwy atal, dewis, llesiant ac annibyniaeth.

Defnyddio data i gefnogi comisiynu gwasanaethau

Darparu data am y gweithlu i Gofal Cymdeithasol Cymru

- 1.56. **Rhaid** i gomisiynwyr fynd ati'n rhagweithiol i annog eu darparwyr i gwblhau a dychwelyd y data am y gweithlu sy'n cael eu casglu'n flynyddol gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae set ddata genedlaethol gywir a chyfredol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn helpu i gynllunio'r gweithlu ar sail gadarn yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Prosiect Cartrefi Gofal Cymru

- 1.57. System amlweddol sydd wedi'i chysylltu â chyfeiriadur iechyd a llesiant Dewis Cymru yw Prosiect Cartrefi Gofal Cymru. Mae'n caniatáu i ddarparwyr

³⁰ <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/02/202402-Childrens-Commissioner-for-Wales-Right-Way-Social-Care-Welsh.pdf>

³¹ <https://www.llyw.cymru/siarter-rhianta-corfforaethol>

cartrefi gofal i oedolion hunanadrodd gwybodaeth sy'n ymwneud â chapasiti gwelyau a swyddi gwag, sydd wedyn yn cyfrannu'n awtomatig at ddangosfyrddau a'r wefan gyhoeddus – www.CartrefiGofal.Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio setiau data cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Felly, **rhaid** i gomisiynwyr annog darparwyr i ddefnyddio Prosiect Cartrefi Gofal Cymru a diweddarau eu gwybodaeth ynddo.

Cynhwysiant a Hygyrchedd Digidol

- 1.58. **Rhaid** i bartneriaid statudol weithio gyda darparwyr i annog a chefnogi eu defnydd o ddatrysiadau digidol ac i sicrhau bod gan y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau fynediad at y rhynggrwyd a dyfeisiau digidol yn ôl yr angen. Dylai darparwyr sicrhau bod gan eu staff sgiliau digidol sylfaenol i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau a **rhaid** iddynt weithio gyda phartneriaid statudol i gynyddu'r defnydd o ddatrysiadau digidol.

Gweithlu Gofal Cymdeithasol

- 1.59. Dylai comisiynwyr annog darparwyr i ddefnyddio [porth Gofalwn Cymru](#)³² i hysbysebu swyddi gwag yn eu sefydliadau.

Cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol

- 1.60. Wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, **rhaid** i gomisiynwyr roi sylw i holl [ganllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru](#)³³ sy'n ymwneud â gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gan gynnwys egwyddorion gwaith teg. Dylid mesur hyn o fewn y broses gaffael a thrwy brosesau monitro contractau. Dylai comisiynwyr sicrhau bod darparwyr yn talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr gofal cymdeithasol.

Y Gymraeg

- 1.61. Mae cryn dystiolaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn newis iaith pobl. Mae iaith yn elfen hanfodol i bobl o ran diwallu eu hanghenion gofal a chymorth, sicrhau hawliau a hawlogaethau a gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal.
- 1.62. **Rhaid** i ddarpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn hawl ac yn fater o angen a rheidrwydd, nid dewis.
- 1.63. **Rhaid** i bartneriaid statudol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a **rhaid** iddynt geisio darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn llawn yn eu bywyd bob dydd. **Rhaid** i bartneriaid statudol gymryd pob cam rhesymol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth Cymraeg lleol/cymunedol a **rhaid** i ddigonolrwydd gofal a chymorth drwy gyfrwng y

³² <https://gofalwn.cymru/cyflwyno-swydd-wag>

³³ <https://www.llyw.cymru/gweinyddur-cyflog-byw-gwirioneddol-ar-gyfer-gweithwyr-gofal-cymdeithasol>

Gymraeg gael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol.

- 1.64. **Rhaid** i bartneriaid statudol hefyd gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, codau ymarfer a chanllawiau statudol a ddyroddir, a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.
- 1.65. Dylai partneriaid statudol sicrhau bod eu hasesiad o anghenion y boblogaeth yn sefydlu ystod a lefel y gwasanaethau y bydd eu hangen drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys nodi ble mae bylchau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd a'r camau a gymerir i gynyddu ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mwy na geiriau

- 1.66. [Mwy na geiriau](#)³⁴ yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw gwreiddio'r Gymraeg yn y maes fel y gall pobl gael gafael ar y gofal y maent yn ei haeddu a'i angen, a helpu siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Bydd mabwysiadu a chyflwyno Mwy na geiriau yn helpu i wella ansawdd y gofal a roddir i unigolion sy'n byw yng Nghymru.
- 1.67. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn elfen greiddiol o'r fframwaith a'i ystyr, yn syml, yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu diwylliant sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i fynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwasanaethau Cymraeg er mwyn i bobl allu cael gofal, fel partneriaid cyfartal, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan yr holl weithwyr mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys comisiynwyr gwasanaethau gofal a chymorth, rôl i'w chwarae o ran gwreiddio'r gweledigaeth strategol Mwy na geiriau.
- 1.68. **Rhaid** i bartneriaid statudol roi sylw i Mwy na geiriau a sicrhau cydymffurfedd â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a sicrhau eu bod yn arfer y 'Cynnig Rhagweithiol', gan gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na bod rhaid i bobl ofyn am hynny.
- 1.69. Cydnabyddir y gall fod yn heriol i rai darparwyr fodloni'r Cynnig Rhagweithiol, fodd bynnag, **rhaid** i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r gweithlu i gyfathrebu yn Gymraeg beth bynnag yw lefel y Gymraeg sydd ganddynt, ac annog y gweithlu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- 1.70. Dylai comisiynwyr ddefnyddio'r cymalau contract cenedlaethol, sydd ar gael yn y pecyn cymorth, yn eu contractau gyda darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth. Nod y rhain yw sicrhau cysondeb cenedlaethol.

³⁴ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf>

Cydraddoldebau a hawliau dynol

- 1.71. Mae Cymru a'i phobl yn amrywiol eu natur, felly **rhaid** i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ystyried a chrosawu cydraddoldeb er mwyn gwella canlyniadau i boblogaeth Cymru.
- 1.72. **Rhaid** i bartneriaid statudol roi sylw dyladwy i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau ym mhob cam o'r cylch comisiynu i sicrhau bod amrywiaeth a chydraddoldeb yn ganolog i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth. Felly, **rhaid** i gomisiynwyr o leiaf sicrhau eu bod wedi ystyried y dogfennau canlynol, a'u goblygiadau a'u canfyddiadau, wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth:
- a) [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru](#)³⁵;
 - b) [Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Brofiadau o Iechyd a gofal cymdeithasol: triniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflogau is](#)³⁶;
 - c) Adroddiad Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru: [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: disgwyliadau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a Gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol](#)³⁷;
 - d) [CCUHP](#);
 - e) [CCUHPA](#);
 - f) [Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn](#).
- 1.73. Er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol, datblygwyd cymalau contract arfaethedig a dylai comisiynwyr ddefnyddio'r rhain yn eu contractau gyda darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth. Gellir gweld y rhain yn y pecyn cymorth.

Cefnogi'r amgylchedd ac ystyried cynaliadwyedd

- 1.74. Mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)³⁸ yn nodi bod "*Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 100% yn is na'r waelodlin.*"³⁹ Golyga hyn fod rhaid i Gymru, erbyn 2050, i bob pwrpas fod yn cynhyrchu allyriadau carbon sero net.
- 1.75. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hail gyllideb garbon, [Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 \(2021-2025\)](#)⁴⁰. Un o'i huchelgeisiau yw sicrhau bod y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn garbon niwtral erbyn 2030, gan gydnabod maint a chyrhaeddiad y sector cyhoeddus a'i rôl arwain hanfodol o ran gwreiddio'r polisi sero net ym mhopeth a wnawn. Mae

³⁵ <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol>

³⁶ <https://www.equalityhumanrights.com/cy/ein-gwaith/inquiries-and-investigations/profiadau-o-iechyd-gofal-cymdeithasol-trin-gweithwyr-o>

³⁷ <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014-disgwyliadau-phrofiadau-html>

³⁸ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/welsh>

³⁹ [legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/section/29/welsh](https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/section/29/welsh)

⁴⁰ <https://www.llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-i-25>

gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn yr uchelgais honno.

- 1.76. Fel rhan o'r strategaeth [Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#)⁴¹ a [chynllun cyflenwi strategol datgarboneiddio GIG Cymru](#)⁴², mae partneriaid gofal cymdeithasol statudol a darparwyr allanol gwasanaethau gofal a chymorth wedi ymrwymo i:
- a) deall maint presennol allyriadau carbon;
 - b) nodi sut y gellir lleihau allyriadau carbon;
 - c) amlinellu pa fesurau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth fforddiadwy o ansawdd uchel na fydd yn cynhyrchu allyriadau carbon; ac yn bwysicaf oll
 - d) cymryd camau datgarboneiddio ar unwaith.
- 1.77. O fewn yr ymrwymadau hyn, **rhaid** i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol werthuso eu heffaith o ran carbon wrth gynllunio, comisiynu a darparu gofal cymdeithasol a **rhaid** iddynt ddatblygu eu dull o gaffael darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol er mwyn gwerthuso eu rhinweddau cynaliadwyedd a chael mwy o ddylanwad yn y gadwyn gyflenwi. Bydd gwerthuso allyriadau carbon drwy gontractau caffael newydd ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol a'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau gostyngiadau mewn carbon.
- 1.78. Dylai awdurdodau lleol fonitro, cofnodi a cheisio lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r gofal y maent yn ei gomisiynu a dylent gymryd camau tuag at sicrhau eu bod yn ystyried yr amgylchedd yn ehangach (megis bioamrywiaeth, addasu) fel rhan o'u prosesau comisiynu.
- 1.79. Yn unol â [Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 \(2021-2025\)](#)⁴³, dylai pob awdurdod lleol gynnal asesiad ac arfarniad blynyddol o allyriadau carbon a defnyddio'r egwyddorion ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd ar garbon a nodir yng [Nghanllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net](#)⁴⁴. Mae'r canllaw hwn yn ceisio sefydlu ôl troed carbon pendant ar gyfer y sector; fodd bynnag, dim ond pan fydd yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol a gomisiynir yn hysbys y mae hyn yn bosibl.
- 1.80. Dylai awdurdodau lleol gasglu data allyriadau carbon gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn cynnwys y data hynny yn eu cyfrifon a'u hadroddiadau carbon, ac er mwyn llywio'r dogfennau hynny, yn unol â [Chanllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net](#).

⁴¹ <https://www.llyw.cymru/datgarboneiddio-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru>

⁴² https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cynllun-cyflenwi-strategol-datgarboneiddio-gig-cymru_0.pdf

⁴³ <https://www.llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-i-25>

⁴⁴ <https://www.llyw.cymru/canllaw-sector-cyhoeddus-ar-gyfer-adrodd-ar-garbon-sero-net>

Gofalwyr

- 1.81. Er mwyn cefnogi comisiynwyr wrth iddynt gomisiynu gweithgareddau neu wasanaethau i gefnogi gofalwyr yn unol â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf, mae nifer o offer ar gael yn y pecyn cymorth y dylai comisiynwyr eu hystyried.
- 1.82. Bwriedir i'r ddogfen '[Dulliau arfer da wrth gefnogi gofalwyr yng Nghymru](#)'⁴⁵, a luniwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, gael ei defnyddio gan bartneriaid statudol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i gefnogi'r gwaith o nodi angen, cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr.
- 1.83. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys '[Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl](#)'⁴⁶ ("y Siarter")' Llywodraeth Cymru sy'n nodi hawliau cyfreithiol gofalwyr "di-dâl" yng Nghymru o dan y Ddeddf. Mae'r Siarter yn defnyddio enghreifftiau ymarferol i ddangos sut beth yw arferion da a dylai gofalwyr ac unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â dylunio neu ddarparu gwasanaethau neu gefnogi gofalwyr ei darllen. Yn unol â'r Siarter, **rhaid** i bartneriaid statudol, wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth:
 - a) rhoi sylw dyladwy i'r hawliau cyfreithiol a roddir i ofalwyr yng Nghymru o dan y Ddeddf;
 - b) rhoi ystyriaeth gyfartal i ddarparu gwasanaethau cymorth i ofalwyr ym mhob rhan o'r cylch comisiynu;
 - c) ceisio sefydlu tystiolaeth gywir mewn perthynas â gofalwyr gan gynnwys data ar nifer y gofalwyr yn eu hardal fel sail i'r broses gomisiynu; a
 - d) cymryd pob cam rhesymol, i rymuso gofalwyr i gymryd rheolaeth a sylweddoli pan fydd eu hawliau o dan fygythiad, drwy godi ymwybyddiaeth o hawliau cyfreithiol gofalwyr yng Nghymru ymysg gofalwyr, unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth a gweithwyr proffesiynol.

Gwasanaethau i Blant

- 1.84. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drawsnewid gofal cymdeithasol plant a dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.
- 1.85. Mae ar blant a phobl ifanc angen gwasanaethau gofal a chymorth sy'n eu galluogi i dyfu, datblygu a ffynnu. Cydnabyddir yn eang bod hyn fel arfer yn golygu bod angen iddynt fod yn agos at eu teuluoedd a'u cymunedau a bydd hyn yn nodwedd allweddol o'r polisi nid-er-elw.
- 1.86. I gefnogi'r datblygiad polisi hwn, **rhaid** i bartneriaid statudol ystyried, fel rhan o'r broses gomisiynu, ffyrdd o letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at eu cartref yn amlach, fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth, mewn trefniadau byw sy'n lleol, sydd wedi'u cynllunio'n lleol ac sy'n atebol yn lleol.

⁴⁵ <https://carers.org/downloads/resources-pdfs/good-practice-approaches-wales/good-practice-approaches-to-supporting-carers-in-wales-welsh-language.pdf>

⁴⁶ <https://www.llyw.cymru/siarter-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal>

Diogelu

- 1.87. **Rhaid** i bartneriaid statudol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn hybu ac yn amddiffyn llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg.
- 1.88. Mae gan bartneriaid statudol **ddyletswydd** o dan [adran 28 o Ddeddf Plant 2004](#)⁴⁷ i sicrhau bod unrhyw wasanaethau a ddarperir ar eu rhan, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn rhoi sylw i'r angen i ddiogelu a hybu lles plant. Er nad oes dyletswydd gyfreithiol gyfatebol ar hyn o bryd yn achos oedolion sy'n wynebu risg, mae disgwyliad o degwch, beth bynnag fo'u hoedran, wrth ddarparu gofal a chymorth i bobl. Felly, dylai'r rheini sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion, ar ran partner statudol, bob amser wneud hynny mewn ffyrdd sy'n amddiffyn oedolion a allai fod yn cael eu camdrin neu eu hesgeuluso, neu sy'n wynebu risg o hynny.
- 1.89. Wrth gomisiynu gofal a chymorth, **rhaid** i bartneriaid statudol gyfeirio at y canllawiau statudol canlynol i sicrhau bod materion diogelu'n cael eu hystyried yn ddigonol:
- a) [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg](#)⁴⁸
 - b) [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg](#)⁴⁹
 - c) [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg](#)⁵⁰
- 1.90. **Rhaid** i bartneriaid statudol ystyried ac ymgorffori'r adnoddau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn cymorth, ym mhob gweithgaredd comisiynu:
- a) [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#)⁵¹; a
 - b) [Y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol](#)⁵².

Fframwaith NYTH

- 1.91. Nod [fframwaith NYTH](#)⁵³ yw sicrhau dull 'system gyfan' o ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru. Mae hefyd yn ceisio ehangu'r sgwrs i ffwrdd o feddwl mai dim ond gwasanaethau arbenigol sy'n gallu darparu cymorth.

⁴⁷ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/section/28>

⁴⁸ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-1-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf>

⁴⁹ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf>

⁵⁰ https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-6--ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-oedolion-syn-wynebu-risg_0.pdf

⁵¹ <https://diogelu.cymru/cy/>

⁵² <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol>

⁵³ <https://www.llyw.cymru/fframwaith-nyth-iechyd-meddwl-lles-cyflwyniad>

- 1.92. Cafodd fframwaith NYTH ei gydgyhychu gan ystod eang o randdeiliaid. Mae'n ganlyniad gwaith helaeth gyda phobl ifanc, rhieni, gofawyr a staff sy'n gweithio mewn ysgolion a gwasanaethau plant ledled Cymru. Mae'r fframwaith yn rhan allweddol o ddarparu ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc o dan Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Cymru.
- 1.93. Gan fod NYTH yn bwysig iawn wrth gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl sy'n ymwneud â babanod, plant a phobl ifanc, dylai comisiynwyr ddefnyddio dull fframwaith NYTH yn eu harferion comisiynu a sicrhau "dull dim drws anghywir". Dylai darparwyr gwasanaethau hefyd fod â dealltwriaeth dda o egwyddorion NYTH wrth ymgymryd â gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer y grwpiau hyn o bobl.
- 1.94. I helpu comisiynwyr i roi fframwaith NYTH ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi creu adnodd hunanasesu a hyfforddiant rhagarweiniol. Dylai comisiynwyr fod yn ymwybodol o'r adnoddau hyn a sicrhau bod cyrff comisiynu yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael.
- 1.95. Dylai comisiynwyr hefyd sicrhau bod manylebau gwasanaeth mewn contractau ar gyfer gwasanaethau yn adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch cydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid.

Comisiynu sy'n cael ei wneud gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a/neu gydgomisiynu lleol

Cryfhau partneriaethau rhanbarthol

- 1.96. Mae'r Cod hwn wedi'i gysylltu a'i integreiddio'n benodol â [Chod Ymarfer Rhan 2 \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#)⁵⁴ a [Chanllawiau Statudol Rhan 9 \(Trefniadau Partneriaeth\)](#)⁵⁵ sydd wedi'u diweddarau i gryfhau trefniadau partneriaethau rhanbarthol.
- 1.97. Mae egwyddorion cydweithio, partneriaeth ac integreiddio sydd wedi'u gwreiddio yng [Nghanllawiau Statudol Rhan 9 \(Trefniadau Partneriaeth\)](#) yn uniongyrchol gymwys i'r Fframwaith Cenedlaethol a'u nod yw:
- gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth;
 - gwella canlyniadau ac iechyd a llesiant;
 - darparu gofal a chymorth cydlynus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
 - defnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol; a
 - gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau.

⁵⁴ <https://www.llyw.cymru/swyddogaethau-gofal-cymdeithasol-cyffredinol-awdurdodau-lleol-cod-ymarfer>

⁵⁵ <https://www.llyw.cymru/trefniadau-partneriaeth-ar-gyfer-darparu-gofal-chymorth-canllawiau>

Geirfa

Term	Diffiniad
Arweinwyr	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn awdurdod lleol a'r Cyfarwyddwr cyfatebol yn y GIG sydd â chyfrifoldebau dros gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth.
Comisiynydd	Y person, yr unigolyn neu'r tîm sy'n cyflawni swyddogaethau comisiynu ar ran y partner statudol.
Darparwr/Darparwr gwasanaeth	Cwmni/sefydliad/person sy'n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol.
Gofal a Chymorth	<p>Mae iddo'r un ystyr ag yn adran 4 o'r Ddeddf:</p> <p>“4. Ystyr “gofal a chymorth”</p> <p>Mae unrhyw gyfeiriad at ofal a chymorth yn y Ddeddf hon i'w ddehongli fel cyfeiriad at—</p> <p>(a) gofal;</p> <p>(b) cymorth;</p> <p>(c) gofal a chymorth.”</p> <p>Mae adran 34 o'r Ddeddf ('Sut i ddiwallu anghenion') yn nodi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu i ddiwallu anghenion person am 'ofal a chymorth'.</p>
Gofal iechyd/gwasanaethau iechyd	<p>Mae gan ofal iechyd yr un ystyr ag yn adran 17(9) o Ddeddf 2006 sy'n darparu mai ystyr 'gofal iechyd' yw:</p> <p>a) gwasanaethau a ddarperir i unigolion ar gyfer neu mewn cysylltiad ag atal salwch, gwneud diagnosis ohono neu ei drin, a</p> <p>b) hybu ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.</p>
Gofalwr	<p>Yn y Cod hwn, mae person yn ofalwr os yw'n dod o fewn y diffiniad o 'ofalwr' yn adran 3 o'r Ddeddf.</p> <p>Fel arfer, mae gofalwr yn aelod o'r teulu neu'n ffrind sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl yn ei gartref ei hun fel arfer. At ddibenion polisi, mae'n well gan Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r term 'gofalwr di-dâl' i wahaniaethu rhyngddynt a gweithwyr gofal cyflogedig.</p> <p>Mae'n bwysig nodi, at ddibenion y Ddeddf, nad yw person yn ofalwr os yw'n darparu gofal o dan contract neu yn rhinwedd contract, neu fel gwaith gwirfoddol.</p> <p>Fodd bynnag, dylid hefyd nodi fod gan awdurdod lleol ddisgresiwn, o dan adran 3(8) o Ddeddf 2014, i drin person fel gofalwr at ddibenion unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Ddeddf os yw'r awdurdod o'r farn bod natur y berthynas rhwng y person sy'n darparu (neu'n bwriadu darparu) gofal a'r person y mae'r gofal hwnnw yn cael ei ddarparu iddo (neu i'w ddarparu iddo)</p>

Term	Diffiniad
	yn golygu y byddai'n briodol i'r cyntaf gael ei drin fel gofalwr at ddibenion y swyddogaeth honno neu'r swyddogaethau hynny.